National Trust

Ein partneriaid

WALES

# Llwybr Lawrenni

I fyny'r afon o borthladd prysur Aberdaugleddau mae 'na fyd dirgel o gymoedd coediog wedi'u boddi, gydag ehangder o forfeydd heli a thraethellau lleidiog. Bydd y gylchdaith arfordirol 3-milltir brydferth hon yn eich tywys drwy goedwig dderw hynafol Lawrenni â'i llethrau serth, uwchben prif afon y Daugleddau, ac ar hyd ffosydd llanwol Garron Pill ac Afon Cresswell. Mae hwn yn llwybr gwych i'w ddilyn mewn unrhyw dymor.




## Gwybodaeth

Cyfeiriad: Cei Lawrenni, Sir Benfro, SA68 0PR

Map AO: Landranger 157; Outdoor Leisure 36

Gweithgaredd: Cerdded

Cymedrol: Tirwedd amrywiol gyda rhywfaint o gerdded ar y ffordd. Am ragor o wybodaeth, darllenwch yr adran Cyfleusterau. Am ragor o fanylion, darllenwch yr adran Tirwedd.

Addas i gŵn: Mae croeso i gŵn o dan reolaeth agos.

Llwybr llawn: Milltiroedd: 3 (km: 4.8)

Hyd: 1 awr 45 munud

## Tirwedd

Tirwedd amrywiol gyda llwybr coetir cul, glannau uchaf cadarn (gall fod yn llithrig/mwdlyd) a rhywfaint o gerdded ar heol. Mae llwybr arall i'w ddilyn pan mae'r llanw'n uchel yn Garron Pill.

## Cyfanswm y camau: 8

Man cychwyn: Cei Lawrenni, cyfeirnod grid: SN015065

1. O Gei Lawrenni trowch i'r chwith, gan fynd heibio'r Quayside Tearooms ar y chwith.
2. Dilynwch arwyddion y llwybr drwy'r iard gychod ac i'r coed, gan basio'r maes carafannau ar y dde. Ewch drwy gât fechan i mewn i'r goedwig hynafol. Mae'r llwybr yn gwau ei ffordd drwy'r coed derw cnotiog, ac yn cynnig ambell gip o'r afon islaw.
3. Mae'r llwybr yn mynd i'r dde, heibio i gwt Sgowtiaid. Mae cornel y goedwig yn lle da i edrych dros y traethellau gyferbyn. Ar draws yr afon fe welwch bentref Llangwm i'r gogledd-orllewin.
4. Ar ôl 545 llath (500m) mae'r llwybr yn mynd i lawr at lannau Garron Pill ac yn parhau ar hyd llinell y penllanw. Mae coed derw hynafol, â'u gwreiddiau wedi eu dadorchuddio'n rhannol gan y llanw, yn hongian dros y glannau. Ar adeg y distyll (llanw isel) mae adar y glannau'n bwydo yn y mwd yn y ffosydd dwfn.
5. Ar ôl ymuno â'r heol, cerddwch lan y rhiw at bentref Lawrenni. Pasiwch yr hostel ieuenctid ar y dde cyn mynd i lawr i ganol y pentref a'r eglwys.
6. Cadwch i'r dde drwy'r pentref i ailymuno â'r heol i Gei Lawrenni.
7. Gyda choed y naill ochr i'r ffordd unwaith eto – coed llydanddail cymysg erbyn hyn – dychwelwch i Gei Lawrenni.
8. Edrychwch dros y traethellau (neu ddŵr, yn dibynnu ar gyflwr y llanw) tuag at West Williamston yn y dwyrain. Mae system o gilfachau bach creigiog yn arwain i lawr at forfa heli a thraethellau.

Man gorffen: Cei Lawrenni, cyfeirnod grid: SN015065